Ymgynghoriad ar newid cyfreithiau gwybodaeth am alergenau ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw ar y safle lle y caiff ei werthu: Trosolwg

Ionawr 2019

Cofiwch nodi: Dyma grynodeb o'r ddogfen ymgynghori lawn. Cyfeiriwch at y ddogfen honno am ragor o fanylion. Gellir dod o hyd i gwestiynau'r ymgynghoriad yma: https://consult.defra.gov.uk/agri-food-chain-directorate/consultation-on-amending-allergen-information/

1. Cyflwyniad

Rydym ni'n lansio'r ymgynghoriad hwn ar newidiadau arfaethedig i ofynion labelu alergenau ar fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol.

Cefndir cyffredinol ar orsensitifrwydd i fwyd

Yn y Deyrnas Unedig (DU), amcangyfrifir bod gan 1-2% o oedolion a 5-8% o blant alergedd bwyd. Mae hyn yn cyfateb i tua 2 filiwn o bobl yn byw yn y DU gydag alergedd bwyd, ond nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys y rhai hynny sydd ag anoddefiad bwyd.

Nid oes unrhyw ffordd o wella alergeddau nac anoddefiadau bwyd. Yr unig ffordd o reoli'r cyflwr yw osgoi'r bwyd sy'n gwneud yr unigolyn yn sâl. Felly, mae'n bwysig iawn fod defnyddwyr yn cael gwybodaeth gywir am gynhwysion alergenaidd mewn cynhyrchion er mwyn iddynt allu gwneud dewisiadau bwyd diogel.

2. Beth yw bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol?

Yn syml, mae bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol yn golygu bwyd wedi'i becynnu ar yr un safle ag y caiff ei werthu, cyn cael ei roi ar werth.

Gall hyn gynnwys er enghraifft, baguette wedi'i becynnu o siop frechdanau a baratowyd gan aelod o staff yn gynharach yn y dydd, neu salad wedi'i baratoi a'i becynnu yng nghegin caffi ac yna ei roi ar silff i gwsmeriaid ei brynu.

Gwahaniaethau pwysig: pa gynhyrchion bwyd nad ydynt yn rhai sydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw i'w gwerthu'n uniongyrchol?

Ni chaiff eitemau bwyd rhydd a werthir heb ddeunydd pecynnu (e.e. ffrwythau) na phrydau a weinir mewn bwyty neu gaffi, eu hystyried yn fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol. Nac ychwaith:

- Bwyd sydd wedi'i baratoi'n ffres a'i lapio ar ôl i'r defnyddiwr archebu, er enghraifft, brechdan neu fyrgyr sy'n cael ei baratoi a'i lapio yn ôl archeb.
- Bwyd sydd wedi'i baratoi ymlaen llaw ond heb ei becynnu ymlaen llaw, er enghraifft brechdan neu sleis o pizza sydd wedi'i baratoi yn y bore a'i arddangos y tu ôl i gownter wrth baratoi ar gyfer cinio prysur ac yna'i lapio ar gyfer y defnyddiwr wrth iddo archebu.

Nid yw'r bwydydd hyn yn rhai wedi'u pecynnu ymlaen llaw i'w gwerthu'n uniongyrchol ac felly nid ydynt yn dod o dan gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

3. Pam canolbwyntio ar fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol?

Ar hyn o bryd, nid oes rhaid i fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol gael labeli ar y deunydd pecynnu. Mae'n rhaid i'r wybodaeth am alergenau fod ar gael yn hawdd, gan gynnwys drwy arwyddion i ofyn i aelod o staff, a gall gwybodaeth am alergenau gael ei darparu wyneb yn wyneb gan y Gweithredwr Busnes Bwyd ar gais.

Rydym ni eisiau gwneud y rheolau'n gliriach fel bod defnyddwyr yn fwy ymwybodol o unrhyw gynhwysion alergenaidd yn y bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol maent yn ei brynu.

4. Dewisiadau polisi

Drwy'r ymgynghoriad hwn, rydym ni'n ceisio barn ar wahanol ddewisiadau polisi i wella'r ddarpariaeth o wybodaeth am alergenau i ddefnyddwyr yng nghyd-destun bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol.

Nid oes rhaid ystyried y dewisiadau yn unigol. Gellir eu cyfuno neu eu defnyddio ar gyfer busnesau o wahanol feintiau mewn dull dwy haen.

Dewis nad yw'n un rheoleiddiol

Dewis polisi 1 – Hyrwyddo arfer gorau

Ni fyddai'r dewis hwn yn golygu newid deddfwriaethol. Yn hytrach, byddai'n rhaid cynnal gweithgarwch ychwanegol i hyrwyddo arfer gorau o ran cyfathrebu gwybodaeth am alergenau. Byddai hyn yn cynnwys annog busnesau a defnyddwyr i adolygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u gweithredoedd i sicrhau amgylchedd mwy diogel ar gyfer defnyddwyr.

Dewisiadau rheoleiddiol

Dewis polisi 2 – Labeli "gofynnwch i'r staff" gorfodol ar ddeunydd pecynnu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol, gyda gwybodaeth ategol ar gyfer defnyddwyr yn ysgrifenedig

Byddai'r dewis hwn yn golygu gorfod rhoi labeli "gofynnwch i'r staff" am alergenau ar bob cynnyrch bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol. Pan ofynnir i staff am gynhwysion alergenaidd, byddai angen iddynt ddarparu gwybodaeth ategol yn ysgrifenedig ar gais, cyn i'r bwyd gael ei brynu.

Dewis polisi 3 – Ei gwneud hi'n orfodol labelu enw'r bwyd a'r alergenau ar ddeunydd pecynnu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol

Byddai'r dewis hwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol gael label ar y deunydd pecynnu i roi gwybod i'r defnyddiwr beth yw enw'r bwyd a pha un o'r 14 cynhwysyn alergenaidd a restrir gan y gyfraith y mae'r cynnyrch yn eu cynnwys yn fwriadol.

Dewis polisi 4 – Ei gwneud hi'n orfodol cael label gydag enw'r bwyd a rhestr lawn o'r cynhwysion, gan bwysleisio'r alergenau, ar ddeunydd pecynnu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol

Mae'r dewis hwn yn ei gwneud hi'n orfodol i fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol gael label yn enwi'r bwyd ac yn rhestru'r holl gynhwysion gan bwysleisio'r alergenau ar y deunydd pecynnu.

Bydd labelu'n cynnwys:

a. enw'r bwyd

b. rhestr o'r cynhwysion

c. byddai unrhyw un o'r 14 cynhwysyn alergenaidd a nodir gan y gyfraith neu gymhorthion prosesu alergenaidd sy'n deillio ohonynt a ddefnyddiwyd wrth

weithgynhyrchu neu baratoi bwyd ac sydd dal i fod yn bresennol yn y cynnyrch gorffenedig, hyd yn oed os yw hynny mewn ffurf wedi'i haddasu, yn cael ei bwysleisio i fod yn amlycach na'r cynhwysion eraill ar y rhestr, er enghraifft drwy ddefnyddio testun trwm.